



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

62/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

23/09/2021

Polisi perfformiadau plant Llywodraeth Cymru:

Gwersi a ddysgwyd o gyfweiliadau â
gweithwyr proffesiynol ym maes
perfformiadau plant ac argymhellion
polisi

Gwersi a ddysgwyd o gyfweiliadau â gweithwyr proffesiynol ym maes perfformiadau plant ac argymhellion polisi

Chloe Reid

Lluniwyd yr adroddiad hwn fel rhan o interniaeth PhD tri mis o hyd gan Lywodraeth Cymru a drefnwyd drwy Raglen Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC a Llywodraeth Cymru. Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:

Y Gangen Ymchwil Ysgolion

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Tabl cynnwys	1
Rhestr termau	2
1. Cyflwyniad	3
2. Canfyddiadau allweddol	5
3. Methodoleg	9
4. Canfyddiadau manwl.....	12
5. Awgrymiadau ar gyfer gwaith ymchwil pellach	28
Adran gyfeirio.....	30
Atodiad A	30

Rhestr Termau

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
ALI	Awdurdod Lleol
Cymeradwyaeth Corff o Bersonau	Mae Cymeradwyaeth Corff o Bersonau yn golygu y gall grwpiau a sefydliadau gael trwydded gyffredinol ar gyfer eu perfformiad. Mae hyn yn golygu nad oes angen trwydded ar gyfer pob plentyn unigol.
NNCEE	Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Plant mewn Cyflogaeth ac Adloniant
NSPCC	Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
WNCEE	Rhwydwaith Cymru ar gyfer Plant mewn Cyflogaeth ac Adloniant

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae plant a phobl ifanc sy'n perfformio yn cael y cyfle i fwynhau profiadau bywyd gwerthfawr, ychwanegu at eu haddysg a datblygu sgiliau pwysig. Mae'n hollbwysig bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a'u bod yn gallu perfformio mewn amgylcheddau diogel.
- 1.2. Yng Nghymru, mae deddfwriaeth a pholisïau yn rhoi canllawiau ar sut i ddiogelu plant sy'n perfformio. Mae'r rhain yn cynnwys '[Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933](#)', '[Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963](#)', '[Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel: Canllawiau i gyd-fynd â rheoliadau 2015 ar gyfer perfformiadau plant](#)' (2015) a '[Rheoliadau Plant \(Perfformiadau a Gweithgareddau\) \(Cymru\) 2015](#)'.
- 1.3. Mae Awdurdodau Lleol (ALLau) yn rhan hanfodol o'r fframwaith perfformiadau plant ac yn bwysig er mwyn sicrhau bod eraill yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Maent yn gyfrifol am brosesu ceisiadau a rhoi trwyddedau ar gyfer plant sy'n perfformio oddi wrth sefydliadau o fewn 21 diwrnod. Maent yn cael ceisiadau gan unigolion sydd am hebrwng perfformwyr ifanc ac maent yn gyfrifol am roi hyfforddiant i hebryngwyr. Yn ogystal, mae gan ALLau y pŵer i arolygu safleoedd perfformio er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol.
- 1.4. Mae pob ALI yng Nghymru yn rhan o Rwydwaith Cymru ar gyfer Plant mewn Cyflogaeth ac Adloniant (WNCEE), sef grŵp sy'n cydweithio i ddiogelu plant mewn adloniant. Mae rhai ohonynt hefyd yn aelodau o'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Plant mewn Cyflogaeth ac Adloniant (NNCEE).
- 1.5. Yn 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer drwy'r WNCEE i gasglu gwybodaeth gan Awdurdodau Lleol. Fel rhan o'r ymarfer hwn, casglwyd gwybodaeth am y broses gwneud cais am drwyddedau, Cymeradwyaeth Corff o Bersonau a chofrestru hebryngwyr, adnoddau staff ALLau, prosesau gorfodi ac arolygiadau a'r cymorth sydd ar gael i ALLau gyflawni eu dyletswyddau.
- 1.6. Yn dilyn yr ymarfer casglu gwybodaeth hwn, daeth i'r amlwg bod angen dealltwriaeth fanylach o'r ffordd y caiff polisi perfformiadau plant ei roi ar waith mewn ALLau ledled Cymru, ac unrhyw welliannau y gellid eu gwneud. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn awyddus i ddeall sut y gallai pandemig COVID-19 fod wedi dylanwadu ar allu ALLau i ddiogelu plant sy'n perfformio. Penderfynwyd ymgymryd â phrosiect ymchwil er mwyn gwneud mwy o waith ymchwil ansoddol gydag ALLau, gan adeiladu ar yr

wybodaeth gychwynnol er mwyn casglu mwy o fanylion am yr heriau a wynebir gan randdeiliaid yn y maes hwn.

1.7. Roedd yr ymarfer casglu gwybodaeth cychwynnol wedi canolbwyntio ar ALLau yng Nghymru yn unig. Er mwyn darparu gwybodaeth gyd-destunol fwy cynhwysfawr, fel rhan o'r prosiect ymchwil, cynhaliwyd dadansoddiad pen desg o bolisiâu perfformiadau plant ledled y DU fel ffordd o amlygu syniadau ar gyfer arferion da y gellid eu rhoi ar waith yng Nghymru o bosibl.

1.8. Nodau'r gwaith ymchwil hwn oedd:

- creu darlun manwl o'r broses perfformiadau plant mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar arferion da, adnoddau; capasiti, a ffyrdd o fynd i'r afael â chyflenwad a galw; arbenigedd a hyfforddiant; a gwaith ar y cyd a gwaith partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol
- ystyried polisiâu perfformiadau plant ym mhedair gwlad y DU ac, yng ngoleuni'r gwaith ymchwil, awgrymu gwelliannau i ganllawiau a dull gweithredu Cymru.

1.9. Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n saith pennod fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: crynodeb o'r canfyddiadau allweddol
- pennod tri: methodoleg yr astudiaeth
- pennod pedwar: canfyddiadau'r gwaith maes
- pennod pump: casgliadau
- pennod chwech: awgrymiadau ar gyfer gwella yn y dyfodol
- pennod saith: atodiad – trefn y cyfweiliadau

2. Canfyddiadau allweddol ac awgrymiadau ar gyfer gwella

Canllawiau

- 2.1. Ar y cyfan, roedd y sawl a gafodd eu cyfweld yn fodlon ar y canllawiau polisi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ond gwnaethant awgrymu eu bod yn defnyddio dogfennau eraill a oedd yn fwy gweithredol yn eu barn nhw ac yn cynnwys astudiaethau achos.
- 2.2. Awgrymir y gellid gwella'r canllawiau polisi presennol drwy ddarparu rhagor o enghreifftiau o senarios, ffurflenni a rhestrau gwirio safonol a gwybodaeth ymarferol. Dylid hefyd annog ALLau i rannu eu gwaith papur ag awdurdodau eraill.

Capasiti a ffyrdd o fynd i'r afael â chyflenwad a galw

- 2.3. Efallai bod angen mwy o gymorth ar rai ALLau i brosesu a rhoi trwyddedau. Yn benodol, mae ALLau llai yn ei chael hi'n anodd rheoli trwyddedau perfformio ar gyfer plant yn yr un amser â chynghorau mwy, sy'n arwain at anghysondebau.
- 2.4. Dywedodd rhai ALLau fod sefydliadau yn rhoi pwysau arnynt i roi trwyddedau'n gyflym. Awgrymwyd hefyd yn ystod y cyfweiliadau y gallai theatrau ei chael hi'n haws na chwmnïau cynhyrchu i roi 21 diwrnod o rybudd i ALLau, o ganlyniad i natur y broses gastio.
- 2.5. Awgrymwyd y dylid adolygu'r gofyniad i roi 21 diwrnod o rybudd er mwyn ystyried y pwysau ar gwmnïau cynhyrchu. Dylid gofyn i ALLau roi gwybodaeth ar eu gwefan a rhoi gwybodaeth debyg am amserlenni, a all helpu i sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Arbenigedd a hyfforddiant swyddogion Awdurdodau Lleol, arbenigedd a hyfforddiant hebryngwyr a gwaith ar y cyd a gwaith partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol

- 2.6. Nid oedd unrhyw un o'r swyddogion ALI a gafodd eu cyfweld wedi cael hyfforddiant ffurfiol. Roeddent yn cael cymorth yn bennaf drwy fynd i gyfarfodydd WNCEE neu drwy gael hyfforddiant anffurfiol gan gydweithwyr.
- 2.7. Roedd yr hyfforddiant a oedd ar gael i hebryngwyr yn amrywio rhwng ALLau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb a rhai ohonynt yn defnyddio cwrs ar-lein yr NSPCC.

- 2.8. Mae ALLau yn ei chael hi'n anodd hyfforddi staff newydd neu roi hyfforddiant wyneb yn wyneb i hebryngwyr o ganlyniad i'r niferoedd isel sy'n gweithio ym maes perfformiadau plant.
- 2.9. Roedd y mwyafrif o'r ALLau yn cydweithio mewn rhyw ffordd, gan gynnwys cysylltu ag arweinydd WNCEE ac ALLau eraill i ofyn am gyngor a chymorth.
- 2.10. Awgrymir y dylai ALLau gydweithio mwy ar reoli llwythi gwaith, rhoi hyfforddiant i hebryngwyr a chymorth i gyflogeion newydd. Er enghraifft, gallai dau neu dri chyngor cyfagos ymuno i helpu ei gilydd.

Arolygiadau

- 2.11. Nid oedd y mwyafrif o'r ALLau yn cynnal arolygiadau neu roeddent ond yn cynnal gwiriadau pan oedd pryder diogelu yn cael ei godi, yn hytrach nag fel mater o drefn.
- 2.12. Awgrymir y dylid cael mwy o ganllawiau ar ba mor aml y dylid cynnal arolygiadau ac y dylai ALLau gael mwy o hyfforddiant ar arolygiadau. Dywedodd rhai ALLau nad oedd modd iddynt gynnal arolygiadau o ganlyniad i broblemau'n ymwneud ag amseriad perfformiadau.
- 2.13. Awgrymir hefyd y gallai awdurdodau lleol gael eu hannog i gynnal arolygiadau y tu allan i oriau swyddfa er mwyn sicrhau bod y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal.

Cymeradwyaeth Corff o Bersonau¹

- 2.14. Anaml iawn roedd yr ALLau a gafodd eu cyfweld yn rhoi trwyddedau agored ar gyfer Cymeradwyaeth Corff o Bersonau am eu bod am gael gwybodaeth am berfformwyr ymlaen llaw at ddibenion diogelu.
- 2.15. Roedd ALLau wedi cael profiadau cymysg o safbwynt cael eu hysbysu am berfformiadau a drefnir gan ddeiliaid Cymeradwyaethau Corff o Bersonau cenedlaethol. Awgrymodd saith ALI fod deiliaid Cymeradwyaethau Corff o Bersonau cenedlaethol wedi cysylltu â nhw i'w hysbysu am berfformiadau yn eu hardal, ond dywedodd pedwar ALI mai anaml roeddent yn cael gwybod am berfformiadau.

¹ Mae Cymeradwyaeth Corff o Bersonau yn golygu y gall grwpiau a sefydliadau gael trwydded gyffredinol ar gyfer eu perfformiad. Mae hyn yn golygu nad oes angen trwydded ar gyfer pob plentyn unigol.

Effaith pandemig COVID-19

2.16. Bu lleihad yn nifer y ceisiadau am drwyddedau perfformio ar gyfer plant o ganlyniad i bandemig COVID-19. Awgrymodd pum ALI fod y pandemig wedi ei gwneud hi'n anos trefnu arolygiadau ar hap. Roedd tri ALI ac un cwmni cynhyrchu o'r farn bod cynghorau yn llai parod i roi trwyddedau o ganlyniad i risgiau yn deillio o'r pandemig.

Syniadau ar gyfer gwella a gynigiwyd gan y cyfweleion

2.17. Gofynnwyd i'r cyfweleion am eu syniadau ar gyfer gwella'r broses trwyddedu perfformiadau plant. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys darparu ffurflenni safonol, codi ymwybyddiaeth o brosesau trwyddedu perfformiadau plant o fewn cynghorau a sicrhau bod yr hyfforddiant a roddir i hebryngwyr yn gyson.

Dadansoddi polisiâu pedair gwlad y DU

2.18. Yn yr Alban, caiff Cymeradwyaethau Corff o Bersonau eu rhoi am 24 mis. Efallai y byddai'n ddefnyddiol awgrymu terfyn amser tebyg yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau bod Cymeradwyaethau Corff o Bersonau yn cael eu hadolygu gan ALLau yng Nghymru yn rheolaidd yn ôl amserlen benodol.

2.19. Mae deddfwriaeth yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyfyngu ar nifer y disgyblion y gall athro preifat eu tiwtora ar yr un pryd. Fodd bynnag, nid oes sôn am y rheol hon yn 'Cadw Perfformwyr Ifanc yn Ddiogel' ac efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys yr wybodaeth hon.

2.20. Gall hebryngwyr ganiatáu i blant gymryd rhan mewn perfformiad am awr ychwanegol (Cymru) neu 30 munud ychwanegol (yr Alban). Yn yr Alban, rhaid i hebryngwyr hysbysu ALLau am yr amser ychwanegol y diwrnod canlynol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw amserlen benodol yng Nghymru ar gyfer hysbysu ALLau. Gall pennu amserlen benodol ar gyfer hysbysu ALLau wneud i hebryngwyr gymryd mwy o ofal wrth ganiatáu i blant ymestyn eu horiau gwaith.

2.21. Mae canllawiau NNCEE yn dadlau y dylai hebryngwr ofalu am blant sy'n perfformio o dan eithriad (fel y rheol pedwar diwrnod neu Gymeradwyaeth Corff o Bersonau), ond nid yw hyn yn ofyniad deddfwriaethol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol rhoi cymorth hebryngwr i bob plentyn, ni waeth pa eithriadau sydd mewn grym. Byddai hyn yn ffordd o ddiogelu pob person ifanc a gofalu amdanynt.

2.22. Mae dogfennaeth yn yr Alban yn nodi bod barn y plentyn yn bwysig wrth gael trwydded. Caiff y ffurflen gais ei llofnodi gan y plentyn a'r rhiant. Mae'r ALI yn anfon copi o'r drwydded at y plentyn os yw'n ddigon hen ac aeddfed. Gallai hon fod yn arfer dda i'w chyflwyno yng Nghymru a byddai'n ategu Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n datgan bod gan blant yr hawl i fynegi eu barn a chael eu cymryd o ddifrif.

3. Methodoleg

- 3.1. Yn gyntaf, cynhaliwyd gwaith ymchwil pen desg i edrych ar bolisiau perfformiadau plant o bedair gwlad y DU: Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r polisiau yn cynnwys '[Child performance and activities licensing legislation in England](#)' (2015), '[Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel: Canllawiau i gyd-fynd â rheoliadau 2015 ar gyfer perfformiadau plant](#)' (2015) yng Nghymru, a '[Guidance on the revised arrangements for ensuring the wellbeing of children involved in performances and licensed activities](#)' (2014) yn yr Alban. Dewiswyd y polisiau hyn am eu bod yn cynnwys y canllawiau diweddaraf. Yn ogystal, cyfwelwyd ag arweinwyr NNCEE a WNCEE gan fod ganddynt lawer o wybodaeth ac arbenigedd ynghylch profiadau awdurdodau lleol gyda thwyddedau perfformio ar gyfer plant ledled y DU.
- 3.2. Cysylltwyd â'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru ym mis Chwefror 2021 i'w gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil. Cynhaliwyd 12 o gyfweiliadau lled-strwythuredig â swyddogion Awdurdodau Lleol a gyflogir ym maes perfformiadau plant rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2021. Mae'r cyfanswm hwn o 12 o gyfweiliadau lled-strwythuredig yn cynnwys arweinwyr WNCEE a NNCEE.
- 3.3. Chwiliwyd gwefannau pob ALI yng Nghymru i weld a oedd gwybodaeth ar gael am amserlenni rhoi trwyddedau.
- 3.4. Ymgynghorwyd â WNCEE wrth lunio cynllun ar gyfer y gwaith ymchwil. Argymhellodd enwau dau gwmni cynhyrchu sy'n gweithio gyda nifer mawr o blant yng Nghymru. Cytunodd un cwmni cynhyrchu i gymryd rhan yn yr ymchwil a chafodd y cyfweiliad ei gynnal ym mis Chwefror 2021. Cynhaliwyd 13 o gyfweiliadau â 12 o swyddogion ALI ac un cwmni cynhyrchu.
- 3.5. Anogwyd ALLau i feddwl am eu profiadau cyn ac yn ystod pandemig COVID-19. Roedd yn bwysig bod ALLau yn gallu rhoi amcan o'u llwythi gwaith cyn y pandemig er mwyn sicrhau bod y gwaith ymchwil yn adlewyrchu eu harferion 'arferol'. Mae'n bosibl bod y pandemig wedi newid bywyd yng Nghymru yn yr hirdymor ond y gobaith yw mai mesurau dros dro yw cyfnodau clo ac ati. Mae'r canllaw cyfweld wedi cael ei gynnwys yn yr atodiad.
- 3.6. Mae Tabl 1 yn dangos lleoliadau daearyddol bras yr Awdurdodau Lleol. Cynhaliwyd dau gyfweiliad â chyfranogwyr yn yr un ALI. Cymerodd 11 o Awdurdodau Lleol yng

Nghymru ac un y tu allan i Gymru ran. Nod y gwaith ymchwil hwn yw cynnig mewnwelediad ar sail profiadau ansoddol y cyfranogwyr, yn hytrach na bod yn gwbl gynrychioliadol.

3.7. Mae'r cyfranogwyr wedi cael eu grwpio yn ôl rhanbarth er mwyn osgoi datgelu pwy ydynt. Ni wnaed unrhyw waith dadansoddi fesul rhanbarth. Gan ei bod yn bosibl mai dim ond un neu ddau berson a gyflogir gan ALI sy'n gyfrifol am drwyddedu perfformiadau plant, gallai rhoi manylion eu lleoliad ddatgelu pwy ydynt.

3.8. Tabl 1. Lleoliadau'r cyfweleion a gymerodd ran yn yr ymchwil

Canol De Cymru (Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf)	5
Gogledd Cymru (Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn)	1
De-ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy, Torfaen)	2
Gorllewin Cymru (Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion, Powys, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin)	4
Y tu allan i Gymru	1
Cyfanswm	12

3.9. Dywedodd dau ALI yng Ngogledd Cymru nad oeddent yn gallu cymryd rhan am nad oedd ganddynt yr adnoddau i gynorthwyo gyda'r ymchwil.

3.10. Roedd llwythi gwaith yr Awdurdodau Lleol o ran rhoi trwyddedau perfformio ar gyfer plant yn amrywio, gyda rhai yn prosesu nifer mawr o drwyddedau ac eraill ond yn cael nifer bach o geisiadau. Roedd hyn i'w ddisgwyl i raddau, gan fod gan ddinasoedd fel Caerdydd nifer o theatrau a stiwdios o gymharu ag ardaloedd mwy gwledig ac amaethyddol Cymru.

3.11. Roedd gan y swyddogion eu hunain brofiad amrywiol yn y maes hwn. Roedd rhai unigolion wedi'u cyflogi ers dros ddeg mlynedd ym maes diogelu plant sy'n perfformio ac roedd eraill wedi dechrau yn y rôl chwe mis yn ôl. Roedd hyn o fudd i'r

ymchwil gan ei fod yn golygu bod amrywiaeth o brofiadau a safbwyntiau yn cael ei hadlewyrchu.

- 3.12. Roedd pob cyfweiliad wedi para rhwng hanner awr ac awr ac wedi'i gynnal o bell drwy ddefnyddio Microsoft Teams. Roedd cyfweld â chyfranogwyr o bell yn ffordd effeithlon o gyrraedd ALLau ledled Cymru. Cynhaliwyd y cyfweiliadau yn Saesneg.
- 3.13. Yn y gwahoddiad, rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn anffodus, ni chafodd y gwahoddiad hwn ei anfon yn Gymraeg ac o ganlyniad, ni chyrrhaeddodd y dull cyfathrebu hwn y safon y mae Llywodraeth Cymru yn ei disgwyl gennym. Ystyriwyd yn ofalus a oedd y camgymeriad hwn wedi effeithio ar gyfranogiad, gan greu tuedd ymateb yn erbyn awdurdodau lleol lle mae ffafriaeth dros gyfathrebu yn Gymraeg yn fwy cyffredin. Cafodd yr awdurdodau lleol hynny na wnaethant ymateb i ddechrau eu hatgoffa o'r opsiwn i ymateb yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw awdurdod lleol arall yn barod i gymryd rhan. Felly, daethpwyd i'r casgliad nad oedd pryder am duedd ymateb yn erbyn rhai awdurdodau lleol.
- 3.14. Cafodd y cyfweiliadau eu recordio, eu trawsgrifio a'u cadw ar un o gronfeydd data Llywodraeth Cymru sydd wedi'u diogelu a'u hamgryptio. Cafodd y data eu dadansoddi fesul thema ac â llaw. Rhoddwyd Hysbysiad Preifatrwydd i'r cyfranogwyr, yn amlinellu eu hawliau mewn perthynas â'r ymchwil ac yn egluro sut y byddai eu data yn cael eu defnyddio.
- 3.15. Weithiau, cododd materion sensitif wrth gyfweld ag ALLau. Cyfaddefodd rhai cyfranogwyr nad oeddent yn gallu bodloni gofynion deddfwriaethol o ganlyniad i broblemau yn ymwneud ag adnoddau a llwyth gwaith, a chaiff hyn ei drafod ymhellach yn yr adran canfyddiadau. Rhoddwyd sicrwydd i'r ALLau mai diben yr ymchwil oedd gwneud argymhellion i wella arferion ac na fyddai unigolion nac ALLau penodol yn cael eu henwi.
- 3.16. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ddyfyniadau yn adran '4. Canfyddiadau manwl' yr adroddiad hwn yn dod o gyfweiliadau â swyddogion awdurdodau lleol.

4. Canfyddiadau manwl

Canllawiau

4.1. Yn gyffredinol, roedd gan y cyfweleion farn gadarnhaol am y canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ond roedd rhai yn ffafrio'r dogfennau a ddarperir gan NNCEE.

4.2. Holwyd am farn y cyfweleion ar ddogfen 'Cadw Perfformwyr Ifanc yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru. Cafodd y canllawiau eu canmol gan wyth ALI a'r cwmni cynhyrchu, a ddywedodd fod y ddogfen yn glir ac yn hawdd ei deall:

'Roedd wedi helpu llawer gyda'r broses. Gallwch chi chwilio drwyddi hefyd a'i defnyddio fel ffynhonnell allweddol o wybodaeth. Roeddwn i'n teimlo ei bod yn glir ac roedd hi'n hawdd dod o hyd i bethau ynddi, yn hytrach na gorfod mynd drwy bopeth. Roedd hi'n hawdd dod o hyd i'r rhannau roedd eu hangen arnoch chi. Rwy'n credu bod fersiwn hawdd ei darllen i rieni hefyd ac mae hynny'n eithaf da.'

4.3. Awgrymodd lleiafrif o'r ALIau ei bod yn well ganddynt weithiau ddefnyddio gwefan NNCEE i chwilio am ganllawiau:

'Rwy'n gwneud mwy o ddefnydd o'r canllawiau i Loegr a ysgrifennwyd gan NNCEE. Maen nhw wedi'u hysgrifennu gan awdurdod lleol, felly maen nhw'n canolbwyntio ar awdurdodau lleol... Mae canllawiau NNCEE yn ddefnyddiol am eu bod yn cynnwys senarios clir y gallwch eu cysylltu â'r meysydd amwys sy'n codi.'

4.4. Dywedodd un ALI ei fod yn defnyddio adnoddau gan gynghorau eraill i ategu'r canllawiau sydd ganddo eisoes:

'Gwnes i ddod o hyd i awdurdod arall ar y Rhyngwyrdd ac roedd senarios ar ei wefan a oedd yn dda iawn i hebryngwyr. Felly, fe wnes i fachu'r senarios hynny. Felly, pan fyddwn ni'n cynnal cyfweiliad, rydyn ni'n gofyn 10 neu 20 o gwestiynau ac yna rydyn ni'n rhoi un o'r senarios hynny iddyn nhw. Ac mae'n cynnwys yr atebion enghreifftiol hefyd.'

Capasiti, a ffyrdd o fynd i'r afael â chyflenwad a galw

4.5. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar amserlenni ar gyfer prosesu a rhoi trwyddedau perfformio ar gyfer plant a llwythi gwaith swyddogion perfformiadau plant ALIau. Yn

ôl y rheoliadau, rhaid i geisiadau am drwyddedau perfformio ar gyfer plant gael eu cyflwyno i'r awdurdod lleol o leiaf 21 diwrnod ymlaen llaw.

- 4.6. Yn gyffredinol, dywedodd y mwyafrif o'r ALLau eu bod yn cymryd pum diwrnod gwaith i brosesu trwydded ond mae'r wybodaeth ar wefannau'r ALLau am berfformiadau plant yn amrywio. Dywedodd rhai ALLau fod sefydliadau perfformio yn rhoi pwysau arnynt i roi trwyddedau'n gyflymach. Roedd y cyfweleion yn gyfrifol am agweddau eraill ar les plant a dim ond un elfen o'u rôl oedd perfformiadau plant.
- 4.7. Dywedodd y mwyafrif o'r ALLau (wyth) eu bod fel arfer yn cymryd tua phum diwrnod gwaith i brosesu trwydded, yn sgil cytundeb â chynghorau eraill:

'Roedd hi fwy na thebyg tua phum mlynedd yn ôl, yng nghyfarfod Cymru gyfan², pan newidiodd y rheoliadau, fe gwnaethon ni drafod y peth. Gwnaethon ni benderfynu y bydden ni'n rhoi'r drwydded mewn pum diwrnod gwaith lle bo hynny'n bosibl. Cytunodd pawb ar hyn. Ers hynny, rwy'n credu ei bod wedi bod yn anodd i rai awdurdodau lleol am nad oes ganddyn nhw'r staff i brosesu'r trwyddedau hynny'n gyflymach.'

- 4.8. Dywedodd lleiafrif o'r ALLau (tri) y byddent yn cymryd hyd at 21 diwrnod i roi trwyddedau perfformio ar gyfer plant. Awgrymodd y cyfwelai o'r tu allan i Gymru y byddai'n cymryd hyd at ddeg diwrnod i roi trwydded:

'Ar gyfartaledd, byddwn i'n dweud bod y rhan fwyaf o fwrdeistrefi yn tueddu i wneud hyn mewn deg diwrnod ond, ar hyn o bryd, rwy'n meddwl eich bod chi'n cael trwydded ar y diwrnod rydych chi'n gwneud cais bron, os yw popeth yn gywir.'

- 4.9. Edrychodd yr ymchwilydd ar wefannau pob ALI yng Nghymru i weld a oeddent yn cynnwys gwybodaeth am amserlenni rhoi trwyddedau. Roedd yr wybodaeth am amserlenni yn amrywio'n fawr. Awgrymodd 13 ALI eu bod yn cymryd 21 diwrnod, nid oedd unrhyw wybodaeth ar wefannau saith ALI, dywedodd un ALI ei fod yn cymryd pythefnos a dywedodd un ALI y byddai ceisiadau am drwydded yn cymryd pum diwrnod. Yn ystod y cyfweiliadau, trafododd rhai ALLau (pedwar) bwysigrwydd sicrhau bod gan awdurdodau lleol amserlenni tebyg er mwyn sicrhau tegwch:

'Rydyn ni hefyd yn gwybod os byddwn ni'n dechrau ymateb yn rhy gyflym, byddan nhw [sefydliadau perfformio] yn sgwrsio â'i gilydd a byddan nhw'n

² Mae'r cyfarfod 'Cymru gyfan' yn cyfeirio at WNCEE

mynd at awdurdod a fydd yn rhoi trwydded iddyn nhw'n gyflym. Mae hyn yn annheg i awdurdodau eraill neu blant eraill oherwydd ni fydd y sefydliadau perfformio'n mynd atyn nhw os bydd y broses yn cymryd tair wythnos.'

- 4.10. Cyfeiriodd rhai cyfweleion (pedwar) at brofiadau negyddol lle roedd sefydliadau wedi ceisio rhoi pwysau ar ALLau i brosesu trwyddedau'n gyflymach:

'Mae llawer o gwmnïau wedi anfon negeseuon e-bost yn dweud eu bod nhw'n gwybod bod gen i 15 diwrnod ond a fyddai modd i mi wneud y gwaith mewn dau ddiwrnod ac maen nhw bron yn ein blacmelio ni i gystadlu â'n gilydd.'

- 4.11. Cyfeiriodd ALLau at ffactorau gwahanol a allai effeithio ar hynt y broses o roi trwyddedau. Disgrifiodd grŵp mawr o gyfweleion (chwech) sut y gallai ceisiadau anghyflawn arafu'r broses:

'Mae llawer o gyswllt nôl a 'mlaen. Os oes gen i gais, efallai na fydd yn cynnwys manylion yr hebryngwr, neu efallai na fydd yn cynnwys caniatâd y pennaeth. Felly, mae'n rhaid i ni fynd nôl a gofyn amdany'n nhw.'

- 4.12. Amlinellodd un ALI sut y gallai nifer y ceisiadau am drwyddedau gynyddu ar adegau penodol o'r flwyddyn:

'Yn enwedig tuag amser Nadolig yn ystod tymor y pantomeim. Dyna'r cur pen mwyaf i mi. Mae'r haf yn gyfnod eithaf prysur fel arfer hefyd.'

- 4.13. Credai nifer bach o ALLau (dau) nad oedd yr amserlen o 21 diwrnod yn briodol ar gyfer cwmnïau cynhyrchu, a allai ei chael hi'n anodd rhoi digon o rybudd i gynghorau:

'Ar gyfer perfformiadau llwyfan, dylen ni gael 21 diwrnod. Am eu bod nhw, wrth gwrs, yn recriwtio plant, yn clyweld â phlant ymhell ymlaen llaw. Felly, mae ganddyn nhw ddigon o amser i weld ceisiadau mewn modd amserol. Fodd bynnag, mae teledu yn ddiwydiant hollol wahanol ac mae'r gofynion yn hollol wahanol. Does dim llawer o glyweliadau. Efallai y byddan nhw'n newid plentyn ar y funud olaf ac roedden ni'n teimlo bod yr amserlen o 21 diwrnod yn anaddas ar gyfer gwaith darlledu.'

- 4.14. Yn ogystal, awgrymodd y mwyafrif helaeth o swyddogion Awdurdodau Lleol mai dim ond un elfen o'u rôl oedd gwaith yn ymwneud â chyflogaeth a pherfformiadau plant. Roedd y cyfweleion yn gyfrifol am agweddau eraill ar les plant, gan gynnwys presenoldeb yn yr ysgol, cyflogaeth plant a chynhwysiant.

4.15. Gofynnwyd i wyth ALL a oedd ganddynt drefniadau ar waith i fynd i'r afael ag absenoldebau o'r gwaith a sicrhau y byddai trwyddedau perfformio ar gyfer plant yn parhau i gael eu prosesu tra bod staff i ffwrdd. Yn achos y mwyafrif o ALLau, nid oedd trefniadau ar waith i fynd i'r afael ag absenoldebau o ganlyniad i wyliau blynyddol neu salwch:

'Bydden nhw'n aros nes fy mod i'n ôl. Os bydd pobl yn cysylltu â mi, rwy'n tueddu i roi gwybod iddyn nhw. Yn enwedig os ydyn nhw'n aros am drwydded. Yn aml iawn, byddan nhw'n fy ffonio ymlaen llaw i roi gwybod. Rwy'n rhoi gwybod iddyn nhw fy mod i ond yn gweithio yn ystod y tymor, felly mae angen i chi wneud cais cyn hyn fel y galla i gwblhau'r gwaith.'

4.16. Awgrymodd cyfweleion o dri ALL y byddai aelodau eraill o'r tîm yn gallu gwneud y gwaith yn eu absenoldeb:

'Gallai'r staff gweinyddol wneud y drwydded. Mae'n debygol na fydden nhw'n gallu gwneud Cymeradwyaeth Corff o Bersonau. Ond gobeithio y byddai un aelod o'r staff yn gallu gwneud hynny, rhywun arall yn y tîm.'

Arbenigedd a hyfforddiant swyddogion Awdurdodau Lleol

4.17. Nid oedd unrhyw un o swyddogion yr ALLau wedi cael hyfforddiant ffurfiol ym maes trwyddedu perfformiadau plant. Roedd yr hyfforddiant roedd swyddogion yr ALLau wedi ei gael yn amrywio ac roedd yn cynnwys cymorth anffurfiol gan gydweithwyr a mynd i gyfarfodydd WNCEE yn bennaf.

4.18. Dywedodd nifer eithaf bach o gyfranogwyr (pump) eu bod wedi cael hyfforddiant anffurfiol gan gydweithwyr, a oedd yn cynnwys cysgodi a'r cyfle i ofyn cwestiynau i gydweithwyr mwy profiadol:

'Mae gennyn ni restr wirio. Ac rwy'n ei defnyddio bob tro rwy'n gwneud trwydded berfformio er mwyn fy atgoffa beth sydd angen i mi ei wneud. Os oes aelod newydd o staff, byddwn i'n ei hyfforddi. A bydden ni'n mynd drwy'r rhestr wirio ac yna gallai ei defnyddio i gofio'r camau i gyd.'

Rwyf hefyd yn trefnu eu bod yn bresennol yn ystod fy hyfforddiant ar hebrwng er mwyn eu helpu i ddeall yr agwedd arall ar y gwaith a pham ein bod yn gofyn am hebryngwyr a beth maen nhw'n ei wneud.... Yn ein swyddfa ni, rydyn ni'n eithaf agos at ein gilydd, felly fe wnes i hyfforddi [cyflogai newydd], roedd hi'n

eistedd wrth fy ymyl. Felly, os oes ganddi unrhyw gwestiynau, rwy'n eistedd wrth ei hymyl. Roeddwn i'n ei hyfforddi drwy alwadau ffôn.'

- 4.19. Credai rhai ALLau (pedwar) fod mynd i gyfarfodydd WNCEE yn ddefnyddiol i'w helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r rheoliadau:

'Mae cyfarfodydd Cymru gyfan wedi cael eu cynnal i ni gyd. Maen nhw'n cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Dydyn ni ddim wedi cael un ers tipyn nawr. Fe wnes i ddechrau mynd iddyn nhw ac roedden nhw'n ddefnyddiol iawn. Oherwydd rydyn ni wedi cael cyflwyniadau ar drwyddedu a chyflogaeth.'

- 4.20. Roedd y swyddog ALL o'r tu allan i Gymru a gafodd ei gyfweld yn teimlo nad oedd gan gynghorau ddigon o adnoddau bob amser i ganiatáu i staff gael hyfforddiant:

'Mae llawer o fwrdeistrefi yn amharod i adael i'w staff fynd i gael hyfforddiant neu fynd i gynadleddau cenedlaethol am nad oes ganddyn nhw'r adnoddau neu am nad ydyn nhw am dalu am yr hyfforddiant a'r treuliau... Efallai nad yw rheolwyr yn teimlo ei bod hi'n werth iddyn nhw gollu gwaith am ychydig oriau a mynd allan. Gallen nhw wneud llawer mwy pe bydden nhw yn y gwaith.'

- 4.21. Mynegodd nifer bach o ALLau (dau) bryder y gallai diffyg hyfforddiant gael effaith andwyol ar ddiogelu plant:

'Pan edrychwch chi ar y cyd-gyfarfodydd cenedlaethol eraill roedden ni'n rhan ohonyn nhw, roeddech chi'n gallu gweld lefel yr hyfforddiant a lefel y diddordeb a'r agwedd fforensig ar rai pobl a oedd yn holi'r cwmni. Mae'n amlwg bod ansawdd ledled y wlad yn amrywio'n fawr.'

- 4.22. Roedd lleiafrif o'r cyfranogwyr (dau) wedi gweithio ym maes addysg ac ysgolion yn y gorffennol ac roeddent o'r farn bod hyn wedi ychwanegu at eu harbenigedd cyn iddynt ddechrau'r swydd:

'Yn ffodus i mi, rwy' wedi gweithio ym maes addysg ac mewn ysgolion dros y deg mlynedd diwethaf... Felly, rwy'n gwybod am ddiogelu.'

- 4.23. Roedd y cwmni cynhyrchu yn cynnig sgysiau i'r staff gan WNCEE a chyfleoedd i ddilyn cyrsiau amddiffyn plant:

'Mae gennyn ni gysylltiad agos iawn â [cynrychiolydd WNCEE]. Mae hi'n rhoi cyngor i ni. Rydyn ni'n cyfarfod â hi bob blwyddyn gan ei bod hi'n dod i siarad â ni fel adran er mwyn diweddarau ein gwybodaeth...

Roedd rheolwr cynhyrchu newydd wedi dechrau gyda ni ddoe... Mae hi'n dilyn y cwrs amddiffyn plant a'r cwrs COVID-19. Cyn iddi wneud unrhyw beth arall, dyna'r peth cyntaf mae pobl yn y cwmni yn ei wneud.'

Cyflogai cwmni cynhyrchu

Arbenigedd a hyfforddiant hebryngwyr

4.24. Mae canllawiau 'Cadw Perfformwyr Ifanc yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru (2015) yn datgan bod yn rhaid i hebryngwyr gael hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant. Yr awdurdod lleol perthnasol fydd yn penderfynu ar yr hyfforddiant hwn.

4.25. Mae'r mwyafrif o ALLau yn cynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb i hebryngwyr ac mae grŵp llai o ALLau yn rhoi hyfforddiant ar-lein yn unig.

4.26. Mewn saith ALI, gall hebryngwyr gael hyfforddiant wyneb yn wyneb, a all bara rhwng dwy a phedair awr. Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu gan ddau ALI, gydag unigolion yn teithio o gynghorau cyfagos i ddilyn y cwrs. Credai un cyfwelai ei bod yn beth da gwybod bod hebryngwyr yn yr ardaloedd hyn yn cael arweiniad tebyg:

'Mae'n rhoi rhywfaint o gysondeb gan eich bod chi'n gwybod bod yr hebryngwyr hynny i gyd wedi cael yr un hyfforddiant.'

4.27. Dywedodd tri swyddog ALI a oedd yn cynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb fod cyfarfod â hebryngwyr yn y cnawd yn ddefnyddiol er mwyn atgyfnerthu gwybodaeth ymgeiswyr ac asesu eu haddasrwydd ar gyfer y rôl:

'Mae'r hyfforddiant wyneb yn wyneb yn llawer gwell am eich bod chi'n cael gwell syniad o iaith corff person ac ati, p'un a yw wir yn deall y rôl a ph'un a yw'n ymroi yn gyfan gwbl i'r rôl...

Os oes gennych chi gyswllt wyneb yn wyneb â rhywun a'ch bod chi'n dweud, dyma fy rhif ffôn, os oes gennych chi gwestiwn, ffoniwch fi. Mae'n gwybod yn union pwy ydych chi. Ond os mai modiwl e-ddysgu mae wedi'i wneud, dyw'r unigolyn ddim yn adnabod y person sy'n ateb y ffôn... Yn y bôn, mater o feithrin cydberthnasau yw hi.'

4.28. Fodd bynnag, mae un ALI wedi cael anawsterau gydag amseriad hyfforddiant wyneb yn wyneb:

'Fel arfer, mae hyfforddiant hebrwng yn cael ei gynnal gyda'r nos. Mae hyd yn oed wedi cael ei gynnal ar y penwythnos... Mae'n ddiwrnod hir weithiau.'

4.29. Mae grŵp bach o ALLau (pump) yn cynnig cwrs yr NSPCC i hebryngwyr newydd fel eu prif hyfforddiant. Dywedodd yr ALLau hyn eu bod yn gofyn i hebryngwyr gwblhau cwrs yr NSPCC am nad oes gan y cynghorau hyn yr adnoddau i gynnig gweithdai wyneb yn wyneb:

'Does dim hyfforddiant penodol achos does dim digon o bobl yn gwneud cais amdano. Pe bydden ni'n gwneud hyfforddiant penodol ar gyfer hebryngwyr, dim ond un person bob chwe mis fyddai'n ei gael.'

4.30. Awgrymodd dau ALI nad oeddent yn hoff o gwrs yr NSPCC am fod yn rhaid i hebryngwyr dalu ffi:

'Dydyd ni ddim yn ardal gyfoethog. Gall rhai o'n rhieni ddim fforddio talu £25.'

4.31. Roedd y cwmni cynhyrchu yn rhoi hyfforddiant hebrwng i bob cyflogai a oedd yn dod i gysylltiad â phlant:

'Mae'r holl ymchwilwyr yn hebryngwyr cymwysedig, dyna sut rydyn ni'n addysgu pobl yn yr adran... Am eu bod nhw i gyd yn hebryngwyr, mae hebryngwr ar leoliad bob amser... Os yw plentyn wedi bod yn ffilmio a bod person arall heb gyrraedd ar amser, yna rydyn ni'n ystyried a allan nhw newid i rôl hebryngwr. Mae'r ffaith ein bod ni'n gallu darparu'r gwasanaeth wrth gefn hwn wedi bod yn ddefnyddiol iawn i ni.'

Cyflogai cwmni cynhyrchu

Gwaith ar y cyd a gwaith partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol

4.32. Dywedodd y mwyafrif o'r ALLau (naw) a gafodd eu cyfweld eu bod yn cydweithio â chynghorau eraill mewn rhyw ffordd. Roedd yr ALLau yn cydweithio mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys cysylltu ag arweinydd WNCEE a chynghorau eraill i gael cyngor a rhoi hyfforddiant i hebryngwyr.

4.33. Awgrymodd rhai ALLau (pump) eu bod yn tueddu i weithio fwyaf gydag arweinydd WNCEE a'u bod yn aml yn gofyn i'r unigolyn hwn am gyngor:

'Os oes gennych chi gwestiynau, rwy'n tueddu i fynd yn syth at [arweinydd WNCEE] yn [dinas] gan mai hi yw'r arbenigwr. Mae'n gwneud hyn bob dydd. Dyna'r unig gyswllt a thrafodaeth arall y byddwn i'n ei gael ar fater penodol.'

- 4.34. Byddai pedwar ALI yn anfon e-bost at gynghorau eraill yn gofyn am gymorth cyffredinol ac ateb ymholiadau:

'Rydyn ni'n cyfathrebu â'i gilydd yn rheolaidd. Yn rhanbarthol mae gennyn ni awdurdodau lleol cyfagos a'r rhain yw'r awdurdodau rydyn ni'n tueddu i weithio fwyaf â nhw. Hefyd, os ydych chi'n ceisio penderfynu a yw perfformiad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer perfformiad didrwydded, y mathau hynny o ymholiadau. Mae gan ein cydweithwyr mewn awdurdodau lleol eraill lawer o wybodaeth bersonol am y grwpiau theatr.'

- 4.35. Dywedodd lleiafrif o'r ALLau (dau) eu bod yn cysylltu â chynghorau eraill i weld a oeddent wedi cael problemau gyda sefydliadau penodol:

'Os ydyn ni'n ymwybodol o rai pryderon am sefydliad penodol, byddwn ni'n anfon e-bost ac yn gofyn a oes unrhyw un arall wedi cael unrhyw gyswllt neu drafodaethau â'r unigolyn hwn neu bryderon, fel ein bod ni i gyd yn ymateb i broblemau neu bryderon mewn ffordd gyson.'

- 4.36. Fel y soniwyd eisoes, roedd dau ALI a oedd yn rhoi hyfforddiant wyneb yn wyneb i hebryngwyr yn gwahodd ymgeiswyr o gynghorau cyfagos i ddilyn y cwrs. Fodd bynnag, awgrymodd dau o'r 11 ALI eu bod yn gweithio'n annibynnol ar faterion yn ymwneud â thrwyddedu perfformiadau plant:

'Does dim llawer o awydd am y math hwnnw o gydweithio. Rwy'n hoffi'r hyn mae NNCEE yn ei wneud ac rwyf wedi anfon fy neunydd i atyn nhw ond, yn y bôn, mae'n teimlo ein bod ni'n gweithio ar ein pennau ein hun.'

Arolygiadau

- 4.37. Mae hawl gan awdurdodau lleol a'r heddlu arolygu safleoedd perfformio, llety a lleoliadau addysg ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y drwydded.
- 4.38. Roedd profiadau cyfweleion yn amrywio gan fod chwech o'r 11 yn meddu ar yr adnoddau i gynnal arolygiadau a phum ALI yn methu gwneud hynny.

4.39. O'r chwe ALI oedd yn meddu ar yr adnoddau i arolygu, awgrymodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn cynnal arolygiadau mewn ymateb i gŵyn neu bryder diogelu yn unig, yn hytrach nag fel mater o drefn:

'Dim ond mewn ymateb i bryderon y byddwn i'n cynnal arolygiad. Felly, os byddaf i'n cael cwyn neu os na fydd rhywbeth yn teimlo'n iawn.'

4.40. Nid oedd pum ALI yn gallu cynnal arolygiadau o ganlyniad i bryderon ynghylch llwyth gwaith a hyfforddiant. Awgrymodd y swyddogion hyn ei bod yn anodd trefnu arolygiadau am fod y rhain yn aml yn cael eu cynnal y tu allan i oriau swyddfa arferol:

'Mae llawer o'r perfformiadau hyn yn cael eu cynnal gyda'r nos neu ar y penwythnos, pan nad yw swyddogion awdurdodau lleol yn gweithio fel arfer.'

4.41. Gofynnodd pedwar ALI am fwy o hyfforddiant ar sut i gynnal arolygiadau:

'Dydw i ddim yn gwybod a fyddwn i'n ddigon hapus neu'n ddigon cymwys i gynnal arolygiad.'

4.42. Dywedodd lleiafrif o'r ALLau (dau) fod arolygiadau yn cymryd amser a'u bod yn anodd eu cynnal oherwydd cyfrifoldebau eraill:

'Oni bai ei fod yn argyfwng neu'n bryder diogelu brys, does dim adnoddau i fynd allan. Yn amlwg, rydych chi yno am ychydig oriau o leiaf a hynny os yw popeth yn mynd yn ôl y disgwyl...Mae'n fwy na dweud helo, sut mae yn gyflym ac yna edrych o gwmpas.'

4.43. Dywedodd un ymatebydd o ALI y byddai'n well ganddynt gael cwmni cydweithiwr pan oeddent yn cynnal arolygiad a bod ganddynt bryderon, gan awgrymu y gallai'r cydweithiwr hwn ddilysu eu dyfarniadau ar bryderon, a helpu i herio'r cyflogwr.

Cymeradwyaeth Corff o Bersonau

4.44. Gall trefnwyr wneud cais am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau gan awdurdodau lleol, a fydd yn golygu bod pob plentyn yn dod o dan un drwydded. Diben y Cymeradwyaethau hyn yw lleihau'r baich gweinyddol o wneud cais am drwyddedau unigol i nifer mawr o blant. Mae'r adran hon yn ystyried profiadau ALLau o 'drwyddedau agored' a Chymeradwyaethau Corff o Bersonau cenedlaethol. Ar y cyfan, roedd ALLau yn amharod i roi trwyddedau agored ar gyfer Cymeradwyaethau

Corff o Bersonau am eu bod o'r farn ei bod yn well cael gwybodaeth ymlaen llaw at ddibenion diogelu. Roedd profiadau ALLau o Gymeradwyaethau Corff o Bersonau cenedlaethol yn fwy cymysg, gyda rhai ohonynt yn cael eu hysbysu am berfformiadau ac eraill ddim yn cael eu hysbysu.

4.45. Gall trwydded agored gael ei rhoi pan nad oes gan drefnwyr yr holl wybodaeth sydd ei hangen pan fyddant yn gwneud cais am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau, megis faint o blant fydd yn cymryd rhan mewn digwyddiad. Mae canllawiau Cadw Perfformwyr Ifanc yn Ddiogel yn nodi, os nad oes modd darparu'r wybodaeth ymlaen llaw, y gall yr awdurdod roi cymeradwyaeth ar yr amod y bydd yr wybodaeth yn dod i law cyn gynted ag y bydd ar gael, hyd yn oed os yw hynny ar ôl y digwyddiad.

4.46. Yn ystod y cyfweiliadau, holwyd ALLau am eu profiadau o drwyddedau agored ar gyfer Cymeradwyaethau Corff o Bersonau a ph'un a oedd trefnwyr yn darparu gwybodaeth ar ôl i'r drwydded gael ei rhoi. Roedd yr ALLau yn unfrydol eu bod yn amharod i roi trwydded agored ac mai anaml roeddent yn gwneud hynny, am ei bod yn well cael yr holl wybodaeth am berfformwyr ymlaen llaw at ddibenion diogelu:

'Mae gennyn ni bŵer mynediad i fynd i weld bod plant yn perfformio'n ddiogel. Felly, mae angen i ni wybod cyn y perfformiad hwnnw. Er mwyn asesu risg rydyn ni am gael gwybodaeth benodol, yn sicr am gymarebau a threfniadau.'

4.47. Roedd un ALI yn gwrthod rhoi trwyddedau agored ar gyfer modelu:

'Dydyd ni ddim yn rhoi trwyddedau agored ar gyfer unrhyw waith modelu. Rwy'n gwrthod eu gwneud...Mae unigolion wedi camfanteisio ar blant yn y gorffennol.'

4.48. Yn ogystal, os yw cais am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau yn cynnwys nifer mawr o blant mewn nifer mawr o awdurdodau lleol, gellir gwneud cais i Weinidogion Cymru am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau genedlaethol. Rhaid cysylltu ag ALLau os bydd perfformiad a drefnir gan ddeiliad Cymeradwyaeth Corff o Bersonau genedlaethol yn digwydd yn eu hardal. Awgrymodd y mwyafrif o ALLau (saith) fod rhai wedi cysylltu â nhw fel hyn, gyda llawer yn enwi'r un cwmni cynhyrchu penodol a oedd wedi eu hysbysu am berfformiadau.

- 4.49. Fodd bynnag, awgrymodd pedwar ALI mai anaml roedd hyn yn digwydd. Dywedodd un ALI efallai nad oedd sefydliadau yn gwybod bod yn rhaid iddynt hysbysu Awdurdodau Lleol:

'Rwy'n methu cofio unrhyw Gymeradwyaethau Corff o Bersonau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru lle rydym wedi cael ein hysbysu am unrhyw berfformiadau yn [awdurdod lleol]. Efallai nad oes unrhyw berfformiadau wedi bod yn [awdurdod lleol] ond rwy'n credu bod hynny'n annhebygol...dydw i ddim yn credu y bydden nhw'n osgoi hysbysu'r awdurdod lleol yn fwriadol ond rwy'n meddwl efallai nad ydyn nhw'n gwybod bod angen iddyn nhw wneud hynny.'

Effaith pandemig COVID-19

- 4.50. Roedd pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu cyfweleion i gynnal arolygiadau, rheoli ceisiadau am drwyddedau, cael cymorth gweinyddol, ymdrin ag asesiadau risg a chefnogi hebryngwyr.
- 4.51. Drwy lawer o bandemig COVID-19, roedd unigolion ledled Cymru wedi cael eu hannog i aros gartref oni bai bod angen. Roedd hyn yn heriol i bum ALI gan ei fod yn golygu bod yn rhaid iddynt drefnu arolygiadau ymlaen llaw ac na allent fynd i safleoedd sefydliadau heb drefnu hynny ymlaen llaw:

'Fel arfer, mae'n rhaid i chi drefnu'r arolygiad a dilyn eu protocol ar gyfer cyfarpar diogelu personol. Mae hynny'n newid dynameg yr arolygiad. Os ydyn nhw'n eich disgwyl chi, yna mae'n debygol y byddan nhw'n gwneud yn siŵr bod popeth fel y dylai fod. Ac, i mi, yr holl bwynt yw mynd yno'n ddirybudd heb roi gwybod iddyn nhw ein bod ni'n dod.'

- 4.52. Dywedodd pob cyfwelai fod nifer y ceisiadau am drwyddedau perfformio ar gyfer plant wedi lleihau yn ystod y pandemig. Awgrymodd grŵp bach o ALLau (tri) ac un cwmni cynhyrchu fod cynghorau yn llai parod i roi trwyddedau o ganlyniad i risgiau yn deillio o bandemig COVID-19.
- 4.53. Dywedodd lleiafrif o swyddogion ALLau (tri) fod y pandemig wedi arwain at gynnydd mewn asesiadau risg:

'Yr unig beth arall o ran COVID-19 yw ein bod ni'n gofyn am asesiad risg penodol, yn ogystal â'u hasesiad risg arferol ar gyfer iechyd a diogelwch plant yn benodol.'

4.54. Yn ystod y pandemig, cafodd rhai gweithwyr yng Nghymru eu rhoi ar ffyrlo neu eu symud i rolau eraill. Collodd tri ALI eu cymorth gweinyddol o ganlyniad i COVID-19:

*'Mae gen i [gyflogai]. Cafodd ei chyflogi fel cynorthwydd trwyddedau plant i mi ar y pryd ac mae'n amhrisiadwy. Mae'n gweithio 18 awr a hanner yr wythnos. Mae'n wych ond ar hyn o bryd, rwy wedi'i cholli i Profi ac Olrhain.'*³

4.55. Yn ogystal, dywedodd un ALI fod pandemig COVID-19 yn golygu bod mwy o newidiadau munud olaf i geisiadau am drwyddedau perfformio ar gyfer plant:

'Gyda'r nifer bach o drwyddedau rydyn ni wedi'u rhoi yn ystod COVID-19, rydyn ni wedi gweld weithiau bod newidiadau munud olaf wedi cael eu gwneud am fod angen i rywun hunanynysu.'

4.56. Fodd bynnag, dywedodd un ALI fod y lleihad yn nifer y trwyddedau wedi ysgafnhau eu llwyth gwaith:

'Roedd fy rhagflaenydd yn ei chael hi'n anodd gwneud popeth oherwydd nifer y trwyddedau a oedd yn dod i mewn drwy'r amser. Doedd hi ddim yn gwneud yr holl bethau eraill roeddwn i'n eu gwneud. Ond rwy'n gallu gwneud y pethau hynny am fod llawer llai o drwyddedau yn dod i mewn. Dydw i ddim yn cofio faint rwyf wedi'u gwneud, tua 50 ers mis Awst efallai. Mae wedi bod yn agosach i 200 y flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf.'

4.57. Roedd gan y cwmni cynhyrchu a gyfwelwyd bryderon am sut y gallai hebryngwyr ddiogelu plant yn effeithiol a chadw pellter cymdeithasol ar yr un pryd:

'Mae'n rhaid i'r hebryngwr gadw chwe throedfedd i ffwrdd o'r plentyn ac maen nhw'n gofalu am blentyn er nad oes hawl ganddyn nhw fod o fewn chwe throedfedd iddo. Felly, mae'n anodd.'

Cyflogai cwmni cynhyrchu

Syniadau ar gyfer gwella a gynigiwyd gan y cyfweleion

4.58. Gofynnwyd i'r cyfweleion am eu syniadau ar gyfer gwella'r canllawiau ar berfformiadau plant. Gan fod ALIau a chwmnïau cynhyrchu yn ymwneud yn uniongyrchol ag amddiffyn plant sy'n perfformio, efallai bod ganddynt ddealltwriaeth

³ Mae 'Profi ac Olrhain' yn cyfeirio at 'Profi, Olrhain a Diogelu', y cynllun sydd ar waith yng Nghymru a oedd, ar adeg y cyfweiliadau, yn hysbysu pobl a allai fod wedi dod i gysylltiad â COVID-19 ac yn gofyn iddynt hunanynysu er mwyn lleihau lledaeniad y feirws.

fwy gweithredol o'r materion a chanfyddiadau defnyddiol o'r tu mewn i'r diwydiant. Cododd y cyfweleion dair prif thema sy'n ymwneud ag adnoddau, ymwybyddiaeth o rôl swyddogion perfformiadau plant ALLau a hyfforddiant hebryngwyr.

- 4.59. Yn gyntaf, cafwyd awgrymiadau gan bum ALI ar sut y gellid gwella adnoddau ym maes perfformiadau plant. I ddau ALI, byddai'n ddefnyddiol pe bai canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffurflenni safonol er mwyn symleiddio'r broses trwyddedu perfformiadau plant:

'Safoni ffurflenni fel bod proses o'r dechrau i'r diwedd sy'n dweud pan fyddwch chi'n gwneud hyn, dyma beth fyddwch chi'n ei ddefnyddio. Felly, pan fyddwch chi'n gwneud hyn, dyma beth fyddwch chi'n ei ddefnyddio, a dyma'r ffurflenni byddwch chi'n eu defnyddio yn y drefn hon. Oherwydd rwy'n credu y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn i bobl newydd sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth.'

- 4.60. Roedd dau ALI wrthi'n gweithio ar newidiadau i ffurflenni cais am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau a pheccynnau i hebryngwyr er mwyn symleiddio'r broses:

'Gweithiais i a [swyddog ALI] ar fath o ffurflen gais newydd ar gyfer Cymeradwyaeth Corff o Bersonau neu ryw fath o daflen wybodaeth. Oherwydd bydd cymaint o gyswllt nôl a 'mlaen os yw'n ddigwyddiad mawr ac yn nhermau cymarebau hebryngwyr. Felly, gwnaethon ni eistedd i lawr a llunio rhywbeth. Mae tabl ac mae'n rhannu'r plant yn ôl grwpiau oedran, bechgyn a merched. Ers i ni ddechrau gwneud hynny, bydden ni'n cael yr wybodaeth yn y ffurflen gais felly byddai'r wybodaeth gennyn ni cyn i'r perfformiad neu'r cynhyrchiad ddigwydd.'

- 4.61. Roedd yr ail thema yn ymwneud â rôl swyddogion perfformiadau plant a barn eraill ar y rôl honno. Roedd tri ALI o'r farn bod diffyg ymwybyddiaeth o rôl swyddogion perfformiadau plant a byddent yn hoffi pe bai pobl eraill yn gwybod mwy amdani:

'Dydyn ni ddim am ymateb i broblem ar ôl iddi godi. Rydyn ni am ddiogelu'n briodol. O fewn [yr ALI], rydych chi'n siarad â phobl a does ganddyn nhw ddim syniad bod ein hadran yn bodoli. Rydyn ni'n ceisio codi ymwybyddiaeth. 'Rydyn ni'n gwneud hynny? Mae'r awdurdodau lleol yn gwneud hynny?' Efallai codi ymwybyddiaeth o fewn awdurdodau lleol, gyda chyfarwyddwyr addysg, cyfarwyddwyr gwasanaethau plant. Byddwn i'n hoffi gweld hyn yn y dyfodol,

rhywbeth yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i godi proffil y maes perfformiadau plant a chodi ymwybyddiaeth.'

- 4.62. Fodd bynnag, roedd un ALL yn pryderu y byddai ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o reoliadau perfformiadau plant yn ei gwneud hi'n anodd iddo reoli ei lwyth gwaith:

'Pe byddwn i'n cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth, byddai hynny'n cael effaith arna' i oherwydd byddai'n rhaid i mi ei rheoli a byddai hefyd yn cael effaith ar [y cynorthwyydd gweinyddol] sy'n ceisio gwneud y gwaith papur. Mae hyn wedi bod yn rhywbeth ychwanegol. Rwy'n gwybod y byddai [aelod o'r tîm] yn cytuno, mae eich tîm gweinyddol wedi lleihau ond mae'n debygol eich bod wedi bod o dan fwy o bwysau ac wedi cael mwy o waith.'

- 4.63. Mae'r thema olaf yn ymwneud â hebryngwyr. Gofynnodd tri o'r cyfweleion am fwy o gysondeb o ran hyfforddiant hebryngwyr:

'Hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan rywun canolog a bod pob hebryngwr yn cael yr un hyfforddiant yng Nghymru, yn hytrach na phrofiadau gwahanol yn dibynnu ar ble rydych chi wedi cael eich trwyddedu.'

- 4.64. Roedd un ALL yn ystyried rhoi laniard i hebryngwyr ei wisgo, fel prawf i ddangos eu bod wedi cael hyfforddiant:

'Mae llawer o hebryngwyr wedi gofyn am laniard i'w wisgo... ar setiau, sy'n swnio'n llawer mwy ymarferol na chael darn llawn o bapur.'

- 4.65. Roedd yr awgrymiadau eraill a gafwyd gan y cyfweleion yn fwy amrywiol ac yn anos i'w priodoli i un thema. Mae Tabl 2 yn crynhoi'r newidiadau amrywiol a awgrymwyd gan gyfweleion unigol:

Newid a awgrymwyd	Dyfyniad gan y cyfwelai
Cyflwyno mwy o ddarpariaethau i reoleiddio a diogelu plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref o ddewis	<i>'Yr unig fwlch yn fy marn i yw plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref... Does dim modd cael datganiad gan bennaeth ar gyfer y plant hynny. Felly, rwy'n dyfalu y gallai'r rhieni wneud hynny ond pa mor wrthrychol yw hynny? Mae'r broblem yn amlwg...Os bydd yn rhaid i blentyn golli ysgol, ni fyddai'r rheol pedwar diwrnod yn gymwys oherwydd nid oes gan blant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref oriau ysgol penodedig. Mae'n bosibl bod tipyn o fwlch yn hyn o beth.'</i>
Cyllid ychwanegol i ALLau	<i>'Os bydd llawer o waith diogelu a phwysau ychwanegol ar yr ALI, rwy'n credu bod angen cydnabod y dylai rhywfaint o gyllid gael ei ddarparu ar gyfer hyn.</i>
Yn ôl y rheol pedwar diwrnod, bydd gofyn i blant sydd wedi perfformio ar fwy na phedwar diwrnod mewn cyfnod o chwe mis gael trwydded. Credai un ALI y dylid cael gwared ar y rheol pedwar diwrnod er mwyn amddiffyn pob plentyn.	<p><i>'Rwy'n teimlo, a oes angen hyn? Dydy hyn ddim yn talu ffordd os yw plentyn dan 16 oed yn perfformio, maen nhw'n cael trwydded p'un a ydyn nhw wedi perfformio neu beidio. Mae angen gwneud pethau'n gliriach. Oherwydd, ar ddiwedd y dydd, rydyn ni'n gofalu am y plentyn hwn ac yn gwneud yn siŵr ei fod yn cadw at yr oriau a'r rheolau.</i></p> <p><i>Fe gawson ni rywfaint o broblem gyda chlwb dawnasio, y llynedd neu'r flwyddyn cyn hynny. Ac fe wnaethon nhw lwyddo i ddelio â'r broblem bryd hynny drwy ddweud bod rhai plant heb berfformio mewn sioeau blaenorol ac ati. Roedd rhaid i ni dderbyn eu gair nhw ar y mater.'</i></p>
Egluro sut mae'r rheoliadau yn gymwys i bobl ifanc rhwng 16 a 18	<p><i>'Mae rhywbeth am yr oedrannau. Mae'r canllawiau ar gyfer plant oedran ysgol, ar gyfer plant gorfodol. Felly, dyweder, er enghraifft, bod fy mab wedi cael ei eni ym mis Awst. Bydd yn gadael yr ysgol ym mis Mehefin, bydd e'n 15 oed. Ond yn ôl y canllawiau, pe bai'n cymryd rhan mewn sioe ym mis Gorffennaf, er enghraifft, byddai wedi gadael yr ysgol, ond dim ond 15 oed yw e' o hyd.</i></p> <p><i>Felly, dydy'r canllawiau ddim yn gymwys iddo. Nifer bach iawn o blant fydd yn y grŵp hwn. Ond mae pobl bob amser yn fy holi am bobl ifanc 17 oed. Dim ond ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol mae'r canllawiau. Felly, mae dal i fod angen mesurau diogelu ar gyfer person ifanc 17 oed am ei fod yn blentyn o hyd, ond dydy'r canllawiau ddim yn ei gynnwys. Mae hynny'n gallu bod yn eithaf dryslyd.'</i></p>

<p>Annog gwaith amlasiantaethol</p>	<p><i>'Os oes gennych chi berfformiadau sy'n cael eu cynnal mewn tafarn, efallai bydd Safonau Masnach yno neu'n ymwybodol o bethau fel yna a gallen ni siecio. Er enghraifft, roedd un o'r cwmnïau cynhyrchu lleol wedi derbyn gwahoddiad i berfformio mewn digwyddiad i ailagor bwyty neu dafarn. Roedden nhw'n perfformio yn y dafarn honno. Roedd ganddyn nhw Gymeradwyaeth Corff o Bersonau i wneud hynny. Mae'n beth da bod asiantaethau eraill yn gwybod pryd maen nhw yn y lleoedd hyn. Dyna'r syniad o hyn ymlaen.'</i></p>
<p>Darparu rhestr gyswilt gyfredol o bawb sy'n gweithio ym maes perfformiadau plant</p>	<p><i>'Yn y tîm plant sy'n colli addysg, mae gennyn ni restr o bobl y gallwn ni gysylltu â nhw, felly rwy'n edrych ar y rhestr ac yn anfon neges e-bost ddiogel at Gaerdydd ac yn gofyn ydych chi'n gyfarwydd â'r plentyn hwn. Rwy'n gwybod bod gen i restr o bawb yn y DU a does gen i ddim rhestr debyg ar gyfer perfformiadau gan blant.'</i></p>
<p>Cynnig profion seicolegol i blant i'w paratoi ar gyfer yr her o fod yn llygad y cyhoedd</p>	<p><i>'Mae rhai darlledwyr yn mynnu bod unrhyw blentyn yr hoffech ei gael yn eich cynhyrchiad yn cael profion seicolegol...Mae'r plentyn hwn yn 10 oed ac yn gwisgo colur. Mae e'n golur i gyd ac mae e' wrth ei fodd. Roedd e'n hapus i gael ei ffilmio ac fe safodd brawf seicolegol. Roedd yr ymateb chwyrn ar y cyfryngau cymdeithasol yn ofnadwy. Ymosododd rhywun arno pan oedd gyda'i fam. Mae dyletswydd foesol arall i amddiffyn. Mae'r ffordd rydyn ni'n ymdrin â'r ddyletswydd honno yn newid o hyd. Am fod y cyfryngau cymdeithasol mor rymus, maen nhw am wneud yn siŵr y gall y plant hyn ymdopi â'r ymateb chwyrn.'</i></p>

5. Awgrymiadau ar gyfer gwaith ymchwil pellach

- 5.1. Gallai fod yn fuddiol gwneud gwaith ymchwil pellach. Yng Ngogledd Iwerddon, caiff ceisiadau eu prosesu gan gorff canolog, yn hytrach nag Awdurdodau Lleol. Gallai fod yn ddefnyddiol ystyried goblygiadau'r drefn hon drwy gynnal cyfweiliadau â'r ALLau ac arweinwyr ym maes perfformiadau plant yng Ngogledd Iwerddon. Fel y nodwyd yn y gwaith ymchwil hwn, nid oes gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru yr adnoddau i hyfforddi eu hebryngwyr na chynnal arolygiadau. Gallai corff canolog mwy o faint feddu ar yr adnoddau i gyflawni'r swyddogaethau hyn.
- 5.2. At hynny, holwyd yr ALLau am ba mor aml roedd trefnwyr â Chymeradwyaethau Corff o Bersonau cenedlaethol wedi eu hysbysu am berfformiadau yn eu hardal. Mae'n anodd gweld sut mae profiadau'r ALLau yn cymharu â nifer y Cymeradwyaethau Corff o Bersonau cenedlaethol a roddir a ph'un a yw sefydliadau yn cyflawni eu rhwymedigaeth i hysbysu ALLau. Gallai fod yn ddefnyddiol cynnal arolwg ymhlith ALLau ynghylch pa mor aml y maent wedi cael hysbysiadau gan ddeiliaid Cymeradwyaethau Corff o Bersonau cenedlaethol a chymharu hyn â'r data rhifol ar nifer gwirioneddol y Cymeradwyaethau Corff o Bersonau cenedlaethol sydd wedi'u rhoi.
- 5.3. Yn olaf, dywedodd y cwmni cynhyrchu a gafodd ei gyfweld fod rhai darlledwyr wedi gofyn am i blant gael profion seicolegol cyn ffilmio er mwyn sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y straen meddyliol sy'n gysylltiedig â bod yn llygad y cyhoedd. Gallai fod yn werthfawr ymchwilio i'r posibilrwydd o ofyn i sefydliadau perfformio ar gyfer plant roi hyfforddiant llesiant i blant ac ymchwilio i'r hyn y gellid ei gynnwys fel rhan o'r cymorth hwn.

6. Adran gyfeirio

[Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933.](#)

[Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963](#)

[Rheoliadau Plant \(Perfformiadau a Gweithgareddau\) \(Cymru\) 2015.](#)

Yr Adran Addysg (yn Lloegr). (2015). [Child performance and activities licensing legislation in England.](#)

[Child performance and activities licensing legislation in England](#)

Llywodraeth yr Alban (2014). [Guidance on the revised arrangements for ensuring the wellbeing of children involved in performances and licensed activities.](#)

Llywodraeth Cymru. (2015). [Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel: Canllawiau i gyd-fynd â rheoliadau 2015 ar gyfer perfformiadau plant.](#)

Llywodraeth Cymru. (2020). Crynodeb o ymatebion Awdurdodau Lleol i arolwg perfformiadau plant, adroddiad heb ei gyhoeddi a luniwyd gan Lywodraeth Cymru

Atodiad A

Trefn y cyfweiliadau

Cynhesu

- Beth rydych chi'n ei wneud fel rhan o'ch rôl? Pa mor hir rydych chi wedi gweithio yn y maes hwn?

Capasiti a ffyrdd o fynd i'r afael â chyflenwad a galw

1. Ydych chi'n teimlo bod gennych chi ddigon o amser i brosesu a rhoi trwyddedau fel rhan o'ch swydd? Pam?
2. Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael cefnogaeth dda gan eich cydweithwyr a'ch rheolwyr i reoli'r llwyth gwaith o ran trwyddedau perfformio ar gyfer plant?
3. Oes trefniadau ar waith i fynd i'r afael ag absenoldebau o'r gwaith oherwydd salwch a gwyliau blynyddol?
4. Beth yw amserlenni'r ALI ar gyfer rhoi trwyddedau? Ai dyma'r amserlen o ddyddiad y cais neu ar ôl i'r holl wybodaeth gael ei chyflwyno?
5. Efallai na fydd gan drefnwyr yr holl wybodaeth sydd ei hangen pan fyddan nhw'n gwneud cais am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau, megis faint o blant fydd yn cymryd rhan mewn digwyddiad agored. Os nad oes modd darparu'r wybodaeth ymlaen llaw, gall yr awdurdod roi cymeradwyaeth ar yr amod y daw'r wybodaeth i law cyn gynted ag y bydd ar gael, hyd yn oed os yw hynny ar ôl y digwyddiad. Oes llawer o ddeiliaid Cymeradwyaethau Corff o Bersonau yn rhoi'r wybodaeth hon i chi ar ôl i'r drwydded gael ei rhoi? Oes angen i chi gysylltu â nhw i ofyn am yr wybodaeth? Ydy hyn yn gweithio'n dda yn eich barn chi? Pam/pam ddim?
6. O safbwynt Cymeradwyaethau Corff o Bersonau Cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn datgan bod yn rhaid cysylltu ag ALLau os caiff perfformiad ei gynnal yn eu hardal. Tua sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae trefnwyr â Chymeradwyaethau Corff o Bersonau Cenedlaethol wedi cysylltu â'ch ALI i'w hysbysu am berfformiadau?

Arbenigedd a hyfforddiant

7. Pa hyfforddiant rydych chi wedi'i gael ar berfformiadau plant, gan gynnwys rhoi trwyddedau a Chymeradwyaethau Corff o Bersonau? Beth sy'n dda am hyn? Beth sy'n wael am hyn? Sut gallai hyn gael ei wella?
8. Beth sy'n cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant hebrwng? Beth sy'n dda am yr hyfforddiant hwn? Beth sy'n wael am yr hyfforddiant hwn? Sut gallai'r hyfforddiant hwn gael ei wella?

Hyfforddiant ar y cyd ac mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol

9. I ba raddau rydych chi'n gweithio gydag ALLau eraill ar faterion yn ymwneud â thrwyddedu perfformiadau plant? Sut rydych chi'n cydweithio? Pam? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn ddefnyddiol? Beth allai gael ei wella?
10. Os nad ydych chi'n gweithio gydag ALLau eraill, pam? Hoffech chi ystyried yr opsiwn hwn?

Adnoddau

11. Pa adnoddau sydd fwyaf defnyddiol i chi ym maes trwyddedau perfformio ar gyfer plant?
12. Beth yw eich barn chi ar ganllawiau Llywodraeth Cymru 'Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel' (2015)? Beth sy'n ddefnyddiol am yr adnoddau hyn yn eich barn chi? Oes unrhyw beth yn aneglur am yr adnoddau hyn? Fyddech chi'n newid unrhyw beth am

yr adnoddau hyn? Ydych chi'n meddwl bod angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ynghylch unrhyw agwedd ar drwyddedau perfformio ar gyfer plant?

Amrywiol

13. Ydy pandemig COVID-19 wedi effeithio ar eich gwaith o safbwynt rheoli trwyddedau perfformio ar gyfer plant?

14. Dywedwch wrtha' i am arolygiadau. Allwch chi gynnal arolygiadau – pam/ pam ddim?

15. Oes unrhyw arferion o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon y dylai Cymru eu mabwysiadu, yn eich barn chi? Pam? Ac i'r gwrthwyneb, pa arferion o Gymru y dylai gwledydd eraill y DU eu dilyn?

Cloi

16. Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei drafod?